# *Taith Gerdded 7, Y Bont-faen*

# Castell, Llys a Ffynhonnau




*Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg*

**Mae'r daith gerdded hon yn eich arwain drwy ardal sydd ychydig i'r gogledd i'r Bont-faen. Cerddwch heibio i Lys ac eglwys hanesyddol Llansanwyr, Ffynhonnau Dr. Salmon, Castell Penllyn, tirwedd hynod ddeniadol lle mae dyffryn a thrum goediog a dwy dafarn groesawgar y Fro. Yn ogystal â hyn, y mae tref y Bont-faen hithau hefyd yn ddiddorol iawn. Ar y cyfan, nid oes fawr o waith dringo ar y daith ar wahân i dair rhiw fechan a gellwch osgoi'r un waethaf drwy ddilyn llwybr arall.**

**Pellter** Bron i 8 milltir. **Map** Map Ordnans Explorer 151 Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

**Parcio** Maes parcio Neuadd y Dref (y Bont-faen) Cyfeirnod Grid 997747; mae rhywfaint o le i barcio yng Nghraig Penllyn Cyfeirnod Grid 977774.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Gwasanaeth bysiau i'r Bont-faen.

**Bwyd a Diod** Mae nifer o fannau'n y Bont-faen a'r Red Fox (Penllyn) a'r Barley Mow (Craig Penllyn).

**Toiledau** Maes parcio Neuadd y Dref (y Bont-faen)

**MAN CYCHWYN** Maes parcio Neuadd y Dref, y Bont-faen.




## Y LLWYBR

Ⓒ Âr fynedfa y tu ôl i chi, cerddwch allan o faes parcio Neuadd y Dref ar hyd y llwybr troed yn y gornel dde bellaf. Ewch yn eich blaen dros bont fetel (sy'n croesi afon Ddawan) a chymerwch y troad cyntaf ar y chwith sy'n mynd â chi o dan yr heol. Ewch i mewn i'r cae o'ch blaen dros y gamfa. Cerddwch i'r un cyfeiriad, gan ddilyn olion hen reilffordd ❶ a gwelwch dir yr Ysgol Gyfun ar y dde.

Gwyrwch i'r chwith a cherddwch ar draws y cae at gamfa. Ewch yn eich blaen i'r un cyfeiriad yn fras drwy nifer o gaeau a thros eu camfeydd, eu pontydd, eu llwybrau estyllod a'u pyst camu. O'r diwedd, deuwch at gae lle mae dau bostyn cyfeirbwynt yn dangos bod llwybr arall yn ymuno â'ch llwybr chi o'r dde. Ar ôl cyrraedd y gamfa berthnasol, (gwelwch gafn dŵr wrth ymyl), ewch yn eich blaen ar hyd llwybr sy'n arwain drwy gae. Bydd arwydd 'Gochelwch y Tarw' yn y cae hwnnw'n aml. Bydd y llwybr yn eich arwain ryw fymryn bach i'r chwith i dai allan Fferm Tŷ Newton. Ewch dros gamfa gerrig ac ymlaen ar draws clos y fferm at yr heol. Sylwch fod y rhan hon o'r daith yn aml yn gors o laid.

Ar ôl cyrraedd yr heol, trowch i'r chwith ac yn fuan wedyn cymerwch y troad cyntaf ar y dde i lôn fechan. Cerddwch ar hyd y lôn honno am ryw 50 llathen, yna croeswch gamfa ar y chwith i gae arall. Ewch ymlaen i'r dde ac i fyny rhiw nes i chi gyrraedd cae arall. Gan ddringo i fyny o hyd, anelwch am gamfa yng nghornel chwith bellaf y cae sy'n agor ar heol. Croeswch yr heol ac ewch dros gamfa arall i gae lle mae golygfeydd bendigedig ❷.

Yna, cerddwch yn fwy neu lai'n union ymlaen ar draws tri chae a thros eu camfeydd tuag at lwyn o gonwydd uchel. Dewch wedyn at lôn wledig. Croeswch hi ar letraws i gyfeiriad y dde a cherddwch ymlaen i'r un cyfeiriad ar hyd Court Drive (lle mae llawer o wahanol arwyddion) i dir Llys Llansanwyr a'r Eglwys ❸. (Efallai y byddai'n well gennych gerdded drwy'r darn o dir coediog ar y dde a gafodd ei glirio'n hytrach na thrwy'r glwyd).

Ar ôl mwynhau cerdded heibio i fan mor hanesyddol, ewch i'r dde ac ar hyd y lôn. Wedyn, cerddwch ymlaen at yr heol wledig a throi i'r chwith, neu os yw'r tywydd yn sych, croeswch y cae ar letraws i gyfeiriad y chwith at gamfa yn y berth bellaf sy'n dod â chi at yr heol. Cerddwch ar hyd yr heol honno am ychydig yna trowch i'r chwith wrth ymyl yr arwydd am 'Chatwood'.

Cerddwch ar hyd y lôn galed sy'n arwain i Dŷ Chatwood. Ewch heibio i'r adeilad a chymerwch droad sydyn i'r dde. Dringwch y rhiw wedyn nes i chi gyrraedd camfa. Gwyrwch i'r chwith yn y fan honno a chroeswch y cae ar letraws i gyfeiriad y dde gan ddringo i fyny o hyd ac anelwch am y gamfa rywle yng nghornel dde bellaf y cae ❹.* (Os yw'r rhiw'n rhy serth i chi mae llwybr arall i'w gael - gwelwch isod).

Ewch dros y gamfa hon i goedwig a dilynwch lwybr amlwg am dipyn nes i chi gyrraedd clwyd sy'n agor ar gae agored. Dilynwch y llwybr i lawr at gamfa a chlwyd arall ❺. Gwyrwch i'r chwith a dilynwch Y Rhiw am ychydig bach yna trowch i'r dde a cherddwch i lawr rhes o risiau ac ar hyd rhodfa at y briffordd.

Trowch i'r chwith (gwelwch dafarn y Barley Mow ychydig o lathenni o'ch blaen), wedyn ar ôl cerdded ychydig bach ymhellach, trowch i'r dde'n eich ôl i dai mewn ffordd bengaead.**

(Llwybr arall: wrth y gamfa, ewch ymlaen ar hyd gwaelod y cae a'r clawdd ar eich ochr dde nes i chi gyrraedd camfa arall. Croeswch honno a cherddwch ymlaen i'r un cyfeiriad ar hyd llwybr sydd wedi'i farcio'n dda heibio i'r adeiladau preifat o gwmpas Ham Farm, at yr heol wrth waelod Craig Penllyn. Gan gerdded yn fwy neu lai i'r un cyfeiriad, dilynwch yr heol hon drwy'r pentref nes i chi gyrraedd y tai mewn ffordd bengaead a nodwyd â dwy seren yn y cyfeiriadau ar gyfer y prif lwybr).

Anelwch am y gamfa ar y dde i Dŷ Rowan a dringwch y llethr risiog at gamfa sy'n arwain i gae. Gwyrwch i'r dde yn y fan honno ac anelwch am fwlch yng nghornel chwith bellaf y cae. Ewch ymlaen i'r un cyfeiriad at gamfa yng nghlawdd isaf y cae nesaf. Dringwch dros honno i lôn wledig. Trowch i'r chwith wedyn a chyn bo hir, byddwch yn cyrraedd llwybr ceffylau ar eich ochr dde. Dilynwch y llwybr hwnnw am hanner milltir nes i chi gyrraedd heol, yna trowch i'r dde. Cerddwch ar hyd yr heol a heibio i Ffynhonnau Dr Salmon ar y dde ❻ i bentref Penllyn.

Gwelwch yr Eglwys yn fuan ar ôl i chi gerdded heibio i dafarn y Cadno Coch (Red Fox Inn). Trowch i'r chwith yn y fan honno ac ewch drwy'r glwyd i'r lôn sy'n arwain at Gastell Penllyn ❼. Trowch i'r dde'n fuan wedyn i gae yna gwyrwch i'r chwith a chroeswch y cae hwnnw at gamfa gan gadw wal tiroedd y castell ar eich ochr chwith. Cerddwch ymlaen nes i chi gyrraedd camfa arall lle mae'r wal yn gwyro i'r chwith.

Croeswch y cae mawr nesaf gan anelu am y llwyn unig o goed yn ei ganol, yna ewch i lawr y rhiw at glwyd yng nghornel y cae. Ar ôl cyrraedd y cae nesaf, cerddwch ymlaen i lawr y llethr yn gyfochrog â'r coetir sydd y tu ôl i ffens ar eich ochr chwith. Ar waelod y llethr dringwch i fyny at gamfa ac ysgol gan gadw'r ystordai silwair ac adeiladau allan eraill y fferm ar eich ochr chwith. Cerddwch o'r naill ben y fferm i'r llall nes i chi gyrraedd y gât mochyn yng nghornel y cae. Yna, ewch i lawr y rhes serth o risiau sy'n arwain at heol fynediad i fyny ffordd osgoi. Trowch i'r chwith i fyny'r rhiw a cherddwch heibio i fynedfa Tŷ Llwynhelig. Dilynwch lwybr sydd wedi'i farcio'n dda at gamfa ac i mewn i gae. Cerddwch ymlaen i'r un cyfeiriad ochr yn ochr â'r clawdd ar y dde. Trowch i'r chwith wedyn ac anelwch am waelod y cae nesaf (wrth ymyl y ffordd osgoi) trowch i'r chwith eto yn y fan honno ac ymlaen at gamfa. Dringwch y gamfa honno a throwch i'r dde i ardal breswyl a'r maes parcio.

## LLEOEDD O DDIDDORDEB

**❶ HEN REILFFORDD**
Yr hen reilffordd o Bontyclun (Llantrisant) i'r Bont-faen a agorwyd ym 1865 oedd hon. Daeth y trên cyntaf â 50 tunnell o lo o'r Bont-faen a rhedodd y trên olaf ar gyfer teithwyr ym 1964.

**❷ GOLYGFEYDD O DDYFFRYN NADDAWAN**
Golygfeydd bendigedig o'r dyffryn gwyrdd eang a bas a greodd Afon Ddawan pan oedd yn llawer mwy na'r ffrwd fach a welwn heddiw.

**❸ EGLWYS A LLYS LLANSANWYR**
Mae'r Eglwys yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Cafodd ei chysegru i Sant Sanwyr. Plasty o'r unfed ganrif ar bymtheg yw'r llys a adeiladwyd ar safle tŷ cynharach ac mae ganddo ddrysau bwaog a ffenestri myliynog cain. Bu ym meddiant cenedlaethau o'r teulu Gwyn rhwng tua 1400 a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

**❹ GOLYGFEYDD O'R DYFFRYN**
Lle bendigedig i weld yr ardaloedd o gwmpas. O'ch blaen gwelwch bentref hir City a thai uchaf Llanharan y tu ôl iddo; i'r chwith ar y gorwel gwelwch fferm wynt Brynna, Gilfach Goch.

**❺ GER CRAIG PENLLYN**
Mae hysbysfwrdd diddorol yn y fan hon sy'n ymdrin ag amgylchedd y Gymuned.

**❻ FFYNHONNAU DR. SALMON**
Dechreuwyd tynnu dŵr o'r hynaf o'r ffynhonnau hyn yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg. Glanhawyd y ffynhonnau gan Dr Salmon a fu farw ym 1896 yn 106 oed. Ni osodwyd pibau dŵr tan 1934.

**❼ CASTELL PENLLYN**
Un o'r tai gwledig mwyaf yn y Fro. Saif ar gribyn calchfaen i'r de-ddwyrain i Benllyn. Plasty'r teulu Turberville oedd y tŷ hwn yn ystod yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg. Adeiladwyd y tŷ presennol yn ystod y 1770au wrth ymyl olion hen gastell Normanaidd a chafodd ei ailwampio tua 1850 gan J Homfray. Aeth i ddwylo'r teulu Cory yn ystod y 1960au.



*Eglwys Llansanwyr*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



*Castell Penllyn o bell*


Ffotograff (H) G.Woosnam



*Castell Penllyn yn agos*

Ffotograff (H) G.Woosnam

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.


Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.




*Ffynhonnau Dr Salmon*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



*Pentref Bach City yn Nyffryn Naddawan Uchaf*

Ffotograff (H) G.Woosnam



*Cae Plwyf Penllyn*

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- **Hen Reilffordd**
- **Eglwys a Llys Llansanwyr**
- **Ffynhonnau Dr. Salmon**
- **Castell Penllyn**
- **Dyffryn Naddawan Uchaf**
- **Tref Farchnad y Bont-faen**



*Llys Llansanwyr*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## DILYNWCH GÔD Y CERDDWYR

- Gwyliwch rhag tân bob amser
- Clowch bob clwyd
- Cadwch gŵn o dan reolaeth
- Dilynwch lwybrau cyhoeddus wrth groesi tir ffermydd
- Croeswch ffensys, waliau a pherthi wrth glwydi a chamfeydd
- Ewch â'ch ysbwriel adref
- Gwarchodwch yr holl fywyd gwyllt, planhigion a choed

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales


**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan Supported by CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

cerdded llwybr iechyd walking the way to health

Environment Wales Amgylchedd Cymru



Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000

E-bost: info@valeways.org.uk

Gwefan: http//www.valeways.org.uk



Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088


*Taith Gerdded 7, Y Bont-faen*

# Castell, Llys a Ffynhonnau

Pellter: 8 milltir



*Ffynhonnau Dr Salmon*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

make tracks with Valeways